



Croeso: beginners' Welsh

Introducing yourself and your family

In this section, you will hear some people introducing themselves and their families. The first piece occurs quite early in the Croeso module, so it comes with some detailed help in English.

Listen to Alona giving some information about herself.

Alona dw i. Rw i'n byw ym Mhontypridd. Yn wreiddiol, rw i'n dod o Abergwaun yn Sir Benfro. Rw i'n athrawes. Rw i'n gweithio yn Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton. Rwy'n briod. Herbie yw enw fy ngŵr, ac mae e'n gyrru trenau.

Did you notice that she said *Rw i'n byw* and *Rw i'n dod* where you've learned *Dw i'n byw* and *Dw i'n dod*? That's quite common in south Wales.

Alona says she comes from Abergwaun yn Sir Benfro. Aber usually refers to where a river joins the sea and that the second element is the name of that river. That, indeed, is the case here, but where is Afon Gwaun, the river Gwaun? If you have a bilingual map you'll see that Abergwaun is Fishguard in English and that it's in Sir Benfro (Pembrokeshire).

I don't know who Siôn Norton was, but his bridge - pont - gave its name to the Welsh primary school where Alona works. *Fy ngŵr* means 'my husband'. Did you guess Herbie's work? - *Mae e'n gyrru trenau*, or in other words, *gyrrwr trê'n yw e*: 'He's a train driver'.

Next, Dafydd tells us a little about himself:

Dafydd:

dw i. Rw i'n byw ym Mhontypridd. Yn wreiddiol, dw i'n dod o Abertawe. Rw i wedi ymdeol ond rwy wedi bod yn athro. Rw i'n briod. Enw fy ngwraig yw Beryl. Enw fy mechgyn yw Robert a James. Mae Robert yn athro ac mae James yn yr ysgol.

Now listen to Judith and Martin talking about themselves and things they can and cannot do:

Judith:

Judith dw i. Dw i'n dod o Gaerdydd yn wreiddiol ond nawr dw i'n byw yn Abertawe. Does dim teulu mawr gyda fi; mae teulu bach gyda fi: gŵr, mab a merch.

Martin:

Martin dw i. Rwy'n dod o Rydaman, yn Sir Gaerfyrddin. Does dim teulu mawr gyda fi. Mae dau o blant gyda fi yn unig.

Judith:

Dw i'n gallu canu'r piano. Dw i ddim yn gallu canu'n dda. Dw i'n gallu gyrru car. Dw i ddim yn gallu sgio. Dw i'n gallu siarad Ffrangeg. Dw i ddim yn gallu nofio. Dw i'n gallu coginio. Dw i'n gallu chwarae pêl-droed. Dw i ddim yn gallu siarad Almaeneg. Dw i ddim yn gallu dawnsio.

Martin:

Rwy'n gallu chwarae golff, criced, tennis, rygbi, a rwy'n gallu gyrru car. Rwy'n gallu cerdded yn bell. Dw i ddim yn gallu smwddio. Dw i ddim yn gallu nofio'n dda iawn. Rwy'n gallu chwarae'r piano. Dw i ddim yn gallu chwarae'r fiolin. Rwy'n gallu siarad Ffrangeg. Dw i ddim yn gallu siarad Tsieineeg.

We also asked Lynda and Gordon to say a little about themselves:

Lynda:

Lynda dw i, a dw i ddim yn dal iawn. Mae gwallt brown gyda fi a llygaid glas. Dw i'n gwisgo sbectol weithiau. Dw i'n byw yng Nghaerdydd ger yr ysbyty – ger Ysbyty y Waun. Dw i'n byw mewn tŷ un talcen a mae garej gyda ni ond nawr mae'r garej yn stydi. A mae gardd fach gyda ni. Dw i'n gweithio i'r Brifysgol Agored ac i Brifysgol Caerdydd.

A ... yn fy amser sbâr dw i'n hoffi nofio, dw i'n mynd i 'aqua fit', dw i'n hoffi darllen, dw i'n hoffi cerddoriaeth a dw i'n hoffi teithio. Robert yw enw fy ngŵr i, a mae Robert yn hoffi mathemateg. Mae e'n ystadegydd. A mae Robert yn hoffi cerddoriaeth hefyd ac yn cerdded yn y wlad. A mis nesa, mis Ebrill, dyn ni'n teithio i New Mexico i weld fy nghyfnither sy wedi ymdeol yno yn ddiweddar.

Gordon:

Gordon dw i. Dw i'n eitha byr a mae gwallt tywyll gyda fi. Dw i ddim yn gwisgo sbectol.

Dw i'n byw yn Aberdâr. Dw i'n byw mewn tŷ. Mae cegin gyda fi. Does dim garej gyda fi, ond mae gardd gyda fi. Dw i'n gweithio yng Nghaerdydd. Dw i'n hoffi mynd i'r sinema a dw i'n hoffi darllen hefyd.

Antonia yw enw fy mhartner i. Mae hi'n hoffi mynd i'r sinema hefyd ond dyw hi ddim yn hoffi garddio. Gyda'n gilydd dyn ni'n hoffi teithio rownd Cymru.

There were a few things you probably weren't familiar with here:

Ysbyty y Waun is the Heath Hospital, which is in Cardiff.

Tŷ un talcen is a one-gabled house or, in other words, a semi-detached one.

Did you guess Robert's job? The fact that he likes maths was a hint – he's an ystadegydd: a statistician.